**Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 03-02 p.5**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 24 Ebrill 2002** |
| **Amser:** | **10.00** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell pwyllgor 3&4** |
| **Teitl:** | **Y Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus - Strategaeth y Cynulliad ar gyfer hyfforddi aseswyr annibynnol.** |

## Diben

Diben y papur hwn yw rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried a chyflwyno sylwadau ar ychwanegiad i ddrafft diwygiedig y Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus sy'n amlinellu 'strategaeth hyfforddi ar gyfer aseswyr annibynnol'. Rhoddir cyfle i aelodau’r Pwyllgor fynegi’u barn cyn i'r Gweinidogion a'r Cabinet ystyried y mater ymhellach.

## Crynodeb

Mae'r strategaeth hyfforddi ddrafft - sydd wedi'i hamgáu yn **Atodiad A -** yn ymrwymo'r Cynulliad i ddarparu sesiwn hyfforddi blynyddol a digwyddiadau hyfforddi ad hoc ar gyfer Aseswyr Annibynnol, yn ychwanegol at y rhaglen Hyfforddiant Cyflwyno a ddisgrifir yn y Cod drafft.

## Amseru

Gwnaeth y Cadeirydd gais am y papur yn ystod y cyfarfod ar 6 Mawrth, i'w gyflwyno erbyn y cyfarfod hwn.

## Goblygiadau Ariannol

Ar gyfer ymrwymiad hyfforddi ar y lefel hon, gellir defnyddio'r adnoddau sydd eisoes wedi'u dyrannu ar gyfer Aseswyr Annibynnol o Ebrill 2002 ymlaen.

## Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor

Cyflwyno sylwadau i'r Cadeirydd ar y strategaeth hyfforddi ddrafft.

Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus **Ebrill 2002**